

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sut y gallwch gyfrannu at gynorthwyo unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid i reoli eu cymorth eu hunain. Mae'n cynnwys hwyluso cydgynhyrchu ar lefel yr ardal leol neu ar lefel unigolyn, pan fydd pobl wedi dewis cyfeirio eu gwasanaethau eu hunain, a chyfrannu at werthuso cydgynhyrchu.

Mae'r SGC hon yn berthnasol i unigolion sydd yn ymwneud â chomisiynu, caffael a chontractio mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Meini prawf perfformiad

Hwyluso cydgynhyrchu gydag unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid er mwyn comisiynu gwasanaethau a chymorth

Mae'n rhaid i chi allu:

- P1 darganfod sut mae **unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid** eisiau cymryd rhan mewn comisiynu, ar lefel unigol ac ar lefel sefydliadol
- P2 ymgysylltu ag unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid er mwyn nodi eu canlyniadau, eu disgwyliadau a'u blaenoriaethau personol
- P3 nodi pa gymorth ac eiriolaeth y gallai fod ar unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid eu hangen i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cydgynhyrchu
- P4 gweithio gydag unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid i nodi **rhwystrau** rhag cydgynhyrchu
- P5 annog unigolion a phobl allweddol i ddefnyddio'u harbenigedd i gomisiynu eu cymorth eu hunain
- P6 darparu **cymorth ymarferol** er mwyn helpu unigolion a phobl allweddol gyfeirio eu cymorth eu hunain pan fyddant yn dymuno gwneud hynny
- P7 annog unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid i ddefnyddio'u harbenigedd fel partneriaid sy'n comisiynu gwasanaethau ar gyfer y gymuned leol
- P8 darparu **gwybodaeth** berthnasol i unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid am y broses gomisiynu
- P9 darparu esboniadau **hygyrch** ynglŷn â phwysigrwydd comisiynu gwasanaethau a chymorth **cynaliadwy**
- P10 ymateb i geisiadau am wybodaeth ychwanegol, cadarnhad ac esboniadau
- P11 hybu **cydgynhyrchu** gydag unigolion, pobl allweddol a chymunedau ar bob cam o'r broses gomisiynu
- P12 nodi budd pennaf unigolion, pobl allweddol a chymunedau pan nad yw'n bosibl cydgynhyrchu
- P13 rhoi gwybod i'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau am farn unigolion a phobl allweddol ynghylch cyfeirio'u gwasanaethau eu hunain
- P14 rhoi gwybod i unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid am y penderfyniadau a wnaed o ganlyniad i'w barn

Cyfrannu at werthuso cydgynhyrchu gydag unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid sy'n comisiynu eu gwasanaethau a'u cymorth eu hunain

Mae'n rhaid i chi allu:

- P15 casglu gwybodaeth gynhwysfawr am gydgynhyrchu gydag unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid er mwyn comisiynu gwasanaethau

-
- P16 asesu sut mae unigolion, pobl allweddol a chymunedau wedi cydgynhyrchu eu gwasanaethau cymorth eu hunain, ac ar ba lefel
- P17 asesu'r rhwystrau y mae unigolion a phobl allweddol sydd eisiau cyfeirio'u cymorth eu hunain yn eu hwynebu
- P18 asesu effaith y cydgynhyrchu gydag unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid ar brosesau comisiynu
- P19 asesu effaith yr ymgysylltu ag unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid ar y canlyniadau â blaenoriaeth a nodwyd ac ar y gwasanaethau a gomisiynwyd
- P20 asesu'r **risgiau** pan fydd unigolion a phobl allweddol yn cyfeirio'u cymorth eu hunain
- P21 gwneud argymhellion ynghylch sut i alluogi mwy o unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid i gydgynhyrchu eu cymorth eu hunain
- P22 gwneud argymhellion ynghylch sut i reoli'r effaith y mae unigolion a phobl allweddol sy'n cyfeirio'u gwasanaethau a'u cymorth eu hunain yn ei chael ar y farchnad gyflenwi

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Yn benodol i'r SGC hon

Mae angen i chi wybod a deall:

- K1 astudiaethau, adroddiadau a dogfennau diweddar a chyfredol sy'n ymwneud â ffyrdd o gynnwys pobl mewn comisiynu
- K2 astudiaethau, adroddiadau a dogfennau sy'n ymwneud â sut i roi grym a rheolaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- K3 y math o wybodaeth y mae angen ei chasglu ynglŷn â chynnwys unigolion a rhanddeiliaid eraill a chymunedau mewn comisiynu
- K4 y math o rwystrau y gallai pobl eu hwynebu a ffyrdd o oresgyn neu leihau'r rhain cymaint â phosibl
- K5 y dulliau annog y gellir eu defnyddio gyda gwahanol bobl ac sy'n debygol o fod yn llwyddiannus
- K6 sut gallai pobl sy'n cyfeirio'u cymorth eu hunain effeithio ar y farchnad a ffyrdd o gynorthwyo darparwyr gwasanaeth i addasu i newidiadau

Hawliau

Mae angen i chi wybod a deall:

- K7 gofynion cyfreithiol a gofynion y lleoliad gwaith o ran cydraddoldeb, amrywiaeth, gwahaniaethu a hawliau
- K8 gofynion cyfreithiol a gofynion y lleoliad gwaith o ran cwynion a chwythu'r chwiban
- K9 eich rôl chi a rolau pobl eraill o ran hybu comisiynu **cydgynhyrchiol**
- K10 rôl darparwyr gwasanaeth ac asiantaethau partner o ran hybu hawliau, dewisiadau, lles a chyfranogiad gweithgar **unigolion, pobl allweddol** a chymunedau
- K11 sut i ymdrin â gwahaniaethu a'i herio
- K12 eich dyletswydd i roi gwybod am unrhyw beth y sylwch y mae pobl yn ei wneud, neu unrhyw beth y maent yn methu â'i wneud, yn ogystal ag anawsterau gweithredol, adnoddau neu arferion gwael neu wahaniaethol a allai rwystro hawliau unigolion a phobl allweddol

Diogelu

Mae angen i chi wybod a deall:

- K13 deddfwriaeth, polisi cenedlaethol, fframweithiau, systemau lleol a gweithdrefnau amlddisgyblaethol sy'n ymwneud â diogelu ac

amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion

- K14 y cyfrifoldeb sydd gan bawb i godi pryderon ynghylch achosion posibl o niwed neu gamdriniaeth, arferion gwael neu arferion gwahaniaethol
- K15 ffactorau sy'n cynyddu'r risg o niwed neu gamdriniaeth bosibl
- K16 y gwahanol fathau o niwed neu gamdriniaeth, arferion gwael neu arferion gwahaniaethol
- K17 dangosyddion niwed neu gamdriniaeth bosibl
- K18 sut a phryd i roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch niwed neu gamdriniaeth, gan gynnwys chwythu'r chwiban
- K19 beth i'w wneud os ydych wedi rhoi gwybod am bryderon ond nid oes camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â hwy

Cynladwyedd

Mae angen i chi
wybod a deal:

- K20 pam mae'n bwysig gweithio mewn ffordd **wleidyddol, economaidd, cymdeithasegol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol gynaliadwy**
- K21 sut y gallwch ddatblygu syniadau newydd cynladwy yn eich rôl

Gweithio mewn partneriaeth

Mae angen i chi
wybod a deal:

- K22 y ffactorau sy'n gallu effeithio ar weithio mewn partneriaeth
- K23 technegau ar gyfer gweithio gydag unigolion, pobl allweddol a chymunedau trwy gomisiynu, caffael a chontractio cydgynhyrchiol
- K24 sut i gefnogi budd pennaf unigolion, pobl allweddol a chymunedau
- K25 sut i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol a chaffael yn ystod gweithgareddau comisiynu, caffael a chontractio
- K26 **blaenoriaethau, buddiannau** a chyfraniadau **rhanddeiliaid**
- K27 **realiti gweithredol** darparwyr gwasanaeth
- K28 polisïau, gweithdrefnau, canllawiau a phrotocolau gyda phobl eraill sy'n ymwneud â phartneriaethau
- K29 sut i asesu effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth

Rheoli risg

Mae angen i chi

- K30 y math o risgiau sy'n gysylltiedig â chomisiynu, caffael a chontractio

wybod a deall:

- K31 dulliau o nodi, asesu a rheoli risg
- K32 eich rôl chi o ran nodi, rheoli a rhoi gwybod am risg
- K33 egwyddorion cymryd risgiau cadarnhaol

Eich ymarfer

Mae angen i chi
wybod a deall:

- K34 deddfwriaeth, codau statudol, safonau, rheoliadau, fframweithiau a chanllawiau ar gyfer Ewrop, y Deyrnas Unedig a gwledydd penodol sy'n berthnasol i'ch rôl comisiynu, caffael a chontractio
- K35 deddfwriaeth, codau statudol, safonau, fframweithiau a chanllawiau ar gyfer Ewrop, y Deyrnas Unedig a gwledydd penodol sy'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaeth ac asiantaethau partner
- K36 sut i gael gwybod am weithdrefnau a ffyrdd cytûn o weithio, a gweithio yn unol â hwy
- K37 gwersi a ddysgwyd o adroddiadau, gwaith ymchwil ac ymchwiliadau'r llywodraeth ynghylch methiannau difrifol o ran ymarfer iechyd neu ofal cymdeithasol, ac o ymyraethau llwyddiannus
- K38 sut mae eich rôl yn cyfrannu at waith eich sefydliad a ble y gallwch fynd am gymorth
- K39 sut i asesu effaith gweithgareddau comisiynu, caffael a chontractio ar unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid eraill
- K40 sut i fesur cyflawni **canlyniadau**
- K41 natur a phwysigrwydd darpariaeth ataliol a chymunedol
- K42 ffactorau sy'n gallu achosi gofynion sy'n gwrthdaro
- K43 technegau ar gyfer datrys problemau a meddwl yn arloesol
- K44 sut i gyflawni eich rôl o ran rheoli adnoddau, gan gynnwys rheoli eich amser eich hun
- K45 sut i brisio a gweithio o fewn cyllidebau
- K46 sut a phryd i geisio cymorth gyda chyfyng-gyngor a gwrthdaro moesegol yn eich gwaith
- K47 eich cefndir, profiadau a chredoau eich hun a allai gael effaith ar eich ymarfer
- K48 sut i ddefnyddio **ymarfer seiliedig ar dystiolaeth** i gyfiawnhau eich gweithredoedd a'ch penderfyniadau
- K49 sut i gyfrannu at ddatblygu systemau, arferion, polisïau a gweithdrefnau

K50 sut i herio ymarfer gwael yn eich sefydliad eich hun a sefydliadau eraill

Damcaniaeth ar gyfer ymarfer

Mae angen i chi
wybod a deall:

K51 sut mae'r modelau **cymdeithasol, meddygol a busnes** yn effeithio ar gyflawni canlyniadau

K52 sut mae comisiynu, caffael a chontractio yn gallu cyfrannu at well canlyniadau i unigolion, pobl allweddol a chymunedau

Datblygiad personol a phroffesiynol

Mae angen i chi
wybod a deall:

K53 egwyddorion ymarfer myfyriol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i seilio ar dystiolaeth

K54 eich rôl chi o ran rhannu a datblygu gwybodaeth ac ymarfer gyda phobl eraill, gan gynnwys pobl allweddol a chymunedau

K55 sut i roi adborth adeiladol i bobl eraill

K56 sut i nodi a chael mynediad at gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol

K57 sut i ddatblygu gwybodaeth ac ymarfer proffesiynol trwy oruchwylio a gwerthuso myfyriol

Cyfathrebu

Mae angen i chi
wybod a deall:

K58 sut i ddefnyddio cyfathrebu fel sail ar gyfer comisiynu cydgynhyrchiol

K59 dulliau o hybu cyfathrebu effeithiol â **chydweithwyr**, unigolion a rhanddeiliaid eraill

Delio â gwybodaeth

Mae angen i chi
wybod a deall:

K60 gofynion cyfreithiol, polisiau a gweithdrefnau mewn perthynas â diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth, gan ystyried sensitifrwydd masnachol ac arferion caffael

K61 gofynion cyfreithiol a gofynion y lleoliad gwaith o ran cofnodi gwybodaeth a pharatoi adroddiadau o fewn terfynau amser

K62 sut i nodi, casglu, mesur ac asesu data a'i gyflwyno fel gwybodaeth

- K63 sut mae cynhyrchion meddalwedd gwybodaeth yn gallu eich helpu i gasglu gwybodaeth
- K64 sut i gofnodi gwybodaeth ysgrifenedig yn gywir ac yn eglur, gyda pherthnasedd a lefel briodol o fanylion
- K65 dulliau o sicrhau bod data a gwybodaeth yn hygyrch i unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid eraill
- K66 sut a ble y gellir ac y dylid defnyddio dulliau cyfathrebu electronig

Iechyd a Diogelwch

Mae angen i chi
wybod a deall:

- K67 gofynion cyfreithiol a gofynion y lleoliad gwaith o ran iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd gweithio

Gwybodaeth ychwanegol

Cwmpas/ystod yn gysylltiedig â'r meini prawf perfformiad:

Mae'r manylion yn y maes hwn yn ddatganiadau esboniadol o'r cwmpas a/neu yn enghreifftiau o gyd-destunau posibl lle y gall yr SGC fod yn gymwys; ni ddylid eu hystyried yn ddatganiadau ystod sy'n ofynnol i gyflawni'r SGC.

Pan fydd unigolyn yn ei chael hi'n anodd neu'n amhosibl mynegi ei ddewisiadau ei hun a gwneud penderfyniadau am ei fywyd, er mwyn cyflawni'r safon hon, efallai y bydd angen cynnwys eiriolwyr neu bobl eraill sy'n gallu cynrychioli barn a budd pennaf yr unigolyn.

Pan fydd gwahaniaethau ieithyddol yn y lleoliad gwaith, er mwyn cyflawni'r safon hon, efallai y bydd angen defnyddio gwasanaethau cyfieithu neu gyfieithu ar y pryd.

Yr **unigolyn** yw'r oedolyn, plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gwasanaeth.

Pobl allweddol yw'r bobl hynny sy'n bwysig i unigolyn ac sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i les yr unigolyn hwnnw. Gall pobl allweddol gynnwys teulu, ffrindiau, cynhalwyr a phobl eraill y mae gan yr unigolyn berthynas gefnogol â nhw.

Mae **rhanddeiliaid** yn unigolion a phobl eraill sydd â buddiant yn eich gwaith neu y mae eich gwaith yn effeithio arnynt mewn rhyw ffordd. Maent yn cynnwys darparwyr gwasanaeth o'r sector statudol, y trydydd sector neu'r sector busnes; rheoleiddwyr; cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill y mae eu gwaith yn cyfrannu at les yr unigolyn ac sy'n eich galluogi i gyflawni eich rôl; partneriaid comisiynu neu'r rhai hynny sy'n comisiynu gwasanaethau gan yr un darparwr, pa un a ydynt yn drefniadau ar y cyd ai peidio.

Mae **rhwystrau** yn atal mynediad i bobl ac yn eu hatal rhag cael eu cynnwys, ac maent yn ymwneud â sawl peth gan gynnwys yr amgylchedd ffisegol, cyllid a chost, sefydliadau neu agweddau unigolion neu gymunedau.

Gall **cymorth ymarferol** amrywio yn ôl eich rôl ac anghenion yr unigolyn, ond

mae'n cynnwys broceriaeth, cymorth i ddod i ddeall y system, darparu gwybodaeth, rhoi cyngor a chael at gyllid a thaliadau.

Gall **gwybodaeth** fod yn unrhyw fath o gyfathrebu gan unigolion, pobl allweddol, cymunedau a rhanddeiliaid, pobl a sefydliadau eraill, ac amdanynt. Gallai gwybodaeth ymwneud â deddfwriaeth neu arferion gweithio, ac os felly dylid ei throsglwyddo ymlaen gan ddefnyddio gweithdrefnau a allai fod wedi'u sefydlu gan eich sefydliad. Mae'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad, gwybodaeth gytundebol flaenorol, gwybodaeth gyfrinachol a gwybodaeth gyhoeddus.

Er mwyn i rywbeth fod yn **hygyrch**, dylai fod modd i bawb ei ddefnyddio, waeth beth fo'u gallu, er enghraifft rhywbeth y gall pobl ei ddeall ar ba lefel neu ym mha ffordd bynnag y maent yn cyfathrebu.

Er mwyn i wasanaethau fod yn **gynladwy**, mae'n rhaid iddynt gyflawni'r canlyniadau penodol cyfredol a gallu cyflawni canlyniadau cymdeithasol tymor hwy a ddymunir. Mae hyn yn golygu ystyried unrhyw ffactorau a allai gyfyngu ar y canlyniadau y gall gwasanaethau eu cyflawni yn y dyfodol, yn enwedig ffactorau ariannol, cymdeithasol neu amgylcheddol. Mae'n arbennig o bwysig mewn hinsawdd lle y rhagwelir y bydd anghenion gofal cymdeithasol yn cynyddu mwy na'r cyllid sydd ar gael.

Mae'r broses **cydgynhyrchu** yn cynnwys datblygu perthnasoedd er mwyn cydweithredu ag unigolion, pobl leol, grwpiau cymunedol a sefydliadau. Mae'n golygu defnyddio a datblygu sgiliau a galluoedd pobl trwy gydol yr holl weithgareddau comisiynu, caffael a chontractio, gan gynnwys cynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'n rhoi unigolion, pobl allweddol a chymunedau wrth wraidd gwneud penderfyniadau a rheoli, gan ystyried y rolau y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.

Gall ystod eang o ffactorau ddylanwadu ar **risgiau** ac maent yn cynnwys risgiau i bobl, eiddo a sefydliadau drwy enw da/drwg neu allu i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Cwmpas/ystod yn gysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth:

Mae'r manylion yn y maes hwn yn ddatganiadau esboniadol o'r cwmpas a/neu yn enghreifftiau o gyd-destunau posibl lle y gallai'r SGC fod yn gymwys; ni ddylid eu hystyried yn ddatganiadau ystod sy'n ofynnol i gyflawni'r SGC.

Mae'n rhaid cymhwyso pob datganiad am wybodaeth yng nghyd-destun y safon hon.

Mae'r broses **cydgynhyrchu** yn cynnwys datblygu perthnasoedd ag unigolion, pobl allweddol a chymunedau, gan gydnabod arbenigedd pobl a'r cymorth y maent yn ei gynnig i'w gilydd. Mae'n rhoi unigolion, pobl allweddol a chymunedau wrth wraidd gwneud penderfyniadau a rheoli.

Yr **unigolyn** yw'r oedolyn, plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gwasanaeth.

Pobl allweddol yw'r bobl hynny sy'n bwysig i unigolyn ac sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i les yr unigolyn hwnnw. Gall pobl allweddol gynnwys teulu, ffrindiau, cynhalwyr ac eraill y mae gan yr unigolyn berthynas gefnogol â nhw.

Defnyddir y model **gwleidyddol, economaidd, cymdeithasegol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol** (a adwaenir hefyd fel y model PESTLE) i ddadansoddi'r dylanwadau sydd gan sefydliad ar ei amgylchedd, yn awr ac yn y dyfodol. Fe'i defnyddir i lywio penderfyniadau a galluogi'r sefydliad i ymateb i newid.

Mae **blaenoriaethau a buddiannau** rhanddeiliaid yn ymwneud â'r canlyniadau a geisir. Mae'r rhain dan ddylanwad gwahanol athroniaethau, egwyddorion, blaenoriaethau a chodau ymarfer, ac effeithir arnynt gan eu gwahaniaethau o ran maint, strwythur, trefn lywodraethol a chapasiti. Gallant newid dros amser mewn ymateb i ffactorau cenedlaethol a lleol.

Mae **rhanddeiliaid** yn unigolion a phobl eraill sydd â buddiant yn eich gwaith neu y mae eich gwaith yn effeithio arnynt mewn rhyw ffordd. Maent yn cynnwys darparwyr gwasanaeth o'r sector statudol, y trydydd sector neu'r sector busnes; rheoleiddwyr; cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill y mae eu

gwaith yn cyfrannu at les yr unigolyn ac sy'n eich galluogi i gyflawni eich rôl; partneriaid comisiynu neu'r rhai hynny sy'n comisiynu gwasanaethau gan yr un darparwr, pa un a ydynt yn drefniadau ar y cyd ai peidio.

Realiti gweithredol darparwyr gwasanaeth yw'r ffactorau sy'n effeithio ar sut y gallant gynnal eu gwasanaethau eraill, yn enwedig pan fo cystadleuaeth am gyllid a chwsmeriaid.

Defnyddir y term **sefydliad** i olygu'r sefydliad rydych chi'n gweithio neu'n gwirfoddoli iddo, neu rydych chi'n berchen arno neu'n ei reoli. O ran pobl sy'n ariannu eu gwasanaethau eu hunain neu'n defnyddio cymorth arall hunangyfeiriedig, mae'n golygu chi a'r bobl a allai fod yn gweithio i chi.

Canlyniadau yw'r hyn y dymunir i'r gweithgaredd ei gyflawni ar gyfer unigolion, pobl allweddol a chymunedau. Maent yn symud y pwyslais o'r prosesau, trafodion a rheoli perfformiad i'r gwahaniaethau y gall y ddarpariaeth eu gwneud mewn gwirionedd i fywydau pobl. Maent yn sail i gomisiynu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd trwy roi swyddogaeth ganolog i unigolion wrth werthuso effeithiolrwydd comisiynu.

Mae **ymarfer seiliedig ar dystiolaeth** yn defnyddio systemau, prosesau a 'doethineb ymarfer' a fu'n effeithiol o ran helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Gallai dystiolaeth fod wedi dod o amrywiaeth o ffynonellau: ymchwil ffurfiol ac anffurfiol, a barn a safbwyntiau unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal.

Mae'r **model cymdeithasol** yn disgrifio anabledd fel cyfres o rwystrau mewn cymdeithas ac nid mewn unigolyn, er enghraifft agweddau tuag at bobl sydd mewn angen neu rwystrau ffisegol. Roedd y **model meddygol** yn disgrifio salwch neu anabledd fel rhan gynhenid o'r unigolyn, ac felly byddai'n ceisio trin neu wella'r unigolyn. Mae **modelau busnes** yn cyfeirio at angen sefydliad i weithredu fel busnes o fewn cyfyngiadau ariannol ac, mewn rhai achosion, i wneud elw, er enghraifft mentrau cymdeithasol a busnesau preifat.

Cydweithwyr yw pobl rydych chi'n gweithio gyda hwy yn eich sefydliad eich hun neu sefydliadau eraill, gan gynnwys eich tîm, rheolwyr, darparwyr gwasanaeth, timau eraill, adrannau eraill a sefydliadau eraill.

Gwerthoedd:

Glynu wrth godau ymarfer neu ymddygiad lle y bônt yn berthnasol i'ch rôl a'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i'ch lleoliad gwaith, gan gynnwys hawliau plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawliau:

I gael eu trin fel unigolyn

I gael eu trin yn gyfartal a pheidio ag wynebu gwahaniaethu

I gael eu parchu

I gael preifatrwydd

I gael eu trin mewn ffordd urddasol

I gael eu diogelu rhag perygl a niwed

I gael cymorth a gofal mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion, sy'n ystyried eu dewisiadau ac sy'n eu hamddiffyn hefyd

I gyfathrebu gan ddefnyddio eu dulliau cyfathrebu ac iaith ddewisol

I allu cael gafael ar wybodaeth amdanynt hwy eu hunain

Dylai pob agwedd ar gomisiynu, caffael a chontractio geisio adeiladu ar y gwerthoedd sylfaenol hyn a dylent:

Barchu gwerth ac urddas cynhenid pob unigolyn

Parchu hawliau dynol plant, pobl ifanc ac oedolion

Parchu hawl pobl i gymryd risgiau cadarnhaol

Bod yn dryloyw

Bod yn atebol

Bod yn gymesur

Bod yn gyson

Bod wedi'u targedu

Bod yn ddiduedd

Galluogi darparwyr

Datblygwyd gan	Sgiliau Gofal a Datblygu
Rhif fersiwn	2
Dyddiad y'i cymeradwywyd	Chwefror 2014
Dyddiad adolygu dangosol	Chwefror 2019
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad gwreiddiol	Sgiliau Gofal a Datblygu
URN gwreiddiol	CPC309
Galwedigaethau perthnasol	Gwasanaethau Gofal Plant a Gwasanaethau Personol Cysylltiedig; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Swyddog Cynllunio; Swyddog Strategaeth
Cyfes	Comisiynu, Caffael a Chontractio ar gyfer Gwasanaethau Gofal
Geiriau allweddol	Comisiynu; unigolion, rhanddeiliaid; hwyluso; cydgynhyrchu